BOD YN GLIR AM GANSER

GIG CYMRU NHS WALES

Dr Nick Davies

Ymgyrch ymwybyddiaeth canser yr ysgyfaint: Sut gall Byrddau Iechyd gefnogi'r ymgyrch yng Nghymru

11 Gorffennaf i 11 Awst 2016

Diweddariad diwethaf: 23 Mehefin 2016

Mae GIG Cymru yn rhedeg ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o beswch parhaus dros dair wythnos fel symptom o ganser yr ysgyfaint – gallwch chi helpu ei wneud yn llwyddiant.

Arweinir yr ymgyrch gan Fenter Canser yr Ysgyfaint GIG Cymru ac mae'n gweithio gyda'r Byrddau Iechyd, y Rhwydwaith Canser, Fferylliaeth Cymunedol Cymru a sefydliadau trydydd sector megis Gofal Canser Tenovus. Mae'r Fenter Canser yr Ysgyfaint yn un o bum maes blaenoriaeth y Grŵp Gweithredu Canser ar gyfer 2016/17 i wella canlyniadau i bobl sydd wedi derbyn diagnosis o ganser yr ysgyfaint. Mae'r ymgyrch ymwybyddiaeth yn rhan allweddol o Fenter Canser yr Ysgyfaint, sy'n ymwneud a'r holl lwybr o ymwybyddiaeth hyd at driniaeth.

Beth yw neges allweddol yr ymgyrch?

Y neges ar gyfer y cyhoedd yw: **Wedi bod yn pesychu am dair wythnos? Dywedwch wrth eich doctor.**

Pam canser yr ysgyfaint?

Canser yr ysgyfaint yw'r trydydd canser mwyaf cyffredin mewn dynion, a'r ail ganser mwyaf cyffredin mewn menywod a bob blwyddyn mae'n lladd mwy o bobl na chanser y coluddyn a chanser y fron gyda'i gilydd[1]. Mae cyfradd goroesi canser yr ysgyfaint yng Nghymru yn agos i waelod y rhestr o fewn Ewrop – safle 28 allan o 29 gwlad[2]. Pe bai gan Gymru'r gyfradd goroesi canser orau yn Ewrop yn ystod 2012, byddai amcangyfrif bras o dros 340 o bobl eraill wedi goroesi am flwyddyn, a byddai dros 190 o bobl eraill eto wedi cael siawns o fyw am bum mlynedd arall o leiaf. Er mwyn gwella canlyniadau mae'n rhaid i ni ddeall epidemioleg a chyflwyniad yr afiechyd hwn[1]. Mae gan meddygon nawr y wybodaeth am yr amrywiaeth yng nghamau'r canser yn ystod diagnosis a'r gyfradd goroesi ar gyfer pob cam mewn perthynas i oedran, rhyw ac amddifadedd ar draws clystyrau[3]. Er enghraifft, yn 2012, dim ond 20% o bobl gyda chanser yr ysgyfaint a gyflwynwyd yn ystod Camau I a II, pryd mae siawns gwella o'r afiechyd[1].

Mae diagnosis cynharach a mynediad cyflym i driniaethau sydd â siawns o wella'r claf megis llawfeddygaeth a radiotherapi yn hanfodol er mwyn gwella'r siawns o oroesi.

Beth yw ffocws yr ymgyrch?

Seilir yr Ymgyrch ar 'Be Clear on Cancer' Iechyd Cyhoeddus Lloegr a'i nod yw cyrraedd diagnosis cynharach o ganser yr ysgyfaint drwy godi ymwybyddiaeth o'r symptomau ac, yn fwyaf pwysig, annog pobl i weld eu Meddyg Teulu heb oedi. Mae'r neges hon i beidio ag oedi yn dilyn ymlaen o ganfyddiadau'r Partneriaeth Meincnodi Canser Rhyngwladol. Darganfu'r ymchwil hwn fod gan bobl yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, ymwybyddiaeth is fod y risg o ganser yn cynyddu wrth i chi fynd yn hŷn ac adroddwyd mwy o rwystrau i gyflwyno eu symptomau nac yng ngwledydd eraill[4], yn enwedig poeni am wastraffu amser y doctor.

At bwy yr anelir yr ymgyrch?

Dynion a menywod dros 50 mlwydd oed a'u dylanwadwyr allweddol, megis eu ffrindiau a'u teulu.

Er mai ysmygu yw'r achos mwyaf o ganser yr ysgyfaint o bell ffordd, nid yw deunyddiau'r ymgyrch yn canolbwyntio ar ysmygu gan fod prosiectau ymwybyddiaeth canser yr ysgyfaint blaenorol wedi dangos fod canolbwyntio ar neges ysmygu yn medru gwneud i bobl oedi cyn mynd i'r doctor. Er hynny, rydym yn gwybod fod ysmygwyr a chyn-ysmygwyr mewn mwy o risg.

"Mae cael diagnosis o ganser yr ysgyfaint yn sioc fawr, ond nid yw'n gwahaniaethu a gall effeithio ar unrhyw un, yn enwedig pobl dros 50 oed. Byddwn yn annog unrhyw un â symptomau, fel peswch parhaus, i fynd i weld eu meddyg ar unwaith."
Kathryn Davies

ewch.gig.cymru/canseryrysgyfaint
cruk.org/beclearoncancer

Cynllynwyd y brîf hon gyda chefnogaeth gan CANCER RESEARCH UK

Ystadegau allweddol am canser yr ysgyfaint:[1]

- **Mae o gwmpas 2,400 o achosion newydd o ganser yr ysgyfaint yng Nghymru bob blwyddyn**
- **Dim ond 20% o bobl gyda chanser yr ysgyfaint a gyflwynwyd i'w Meddyg Teulu yn ystod y camau cynnar, pryd mae siawns gwella o'r afiechyd**
- **Mae 98% o bobol sy'n cael diagnosis o canser yr ysgyfaint yng Nghymru dros 50 mlwydd oed**

Pa weithgareddau fydd yn digwydd a phryd?

Bydd yr ymgyrch canser yr ysgyfaint ledled Cymru yn para o 11 Gorffennaf nes 11 Awst 2016, gan dynnu sylw at y symptom o beswch parhaus sy'n para dros dair wythnos.

Bydd hysbysebion yn ymddangos ar ITV Wales ac S4C, ar orsafoedd radio Cymru, mewn papurau lleol ac ar-lein, ac ar fysiau. Bydd ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth gymunedol yn cymryd lle hefyd yn ogystal â gweithgareddau'r cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus.

Yn ogystal â hyn rydym yn gweithio yn strategol i godi ymwybyddiaeth ar draws holl fferyllfeydd Cymru.

Pa ganlyniadau gallwn eu disgwyl, yn seiliedig ar ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth canser yr ysgyfaint tebyg[5]?

Mae ymgyrchoedd Be Clear on Cancer wedi rhedeg yn Lloegr ers 2010. Mae canlyniadau o'r ymgyrch cenedlaethol cyntaf a ganolbwyntiodd ar symptomau canser yr ysgyfaint, ac fe barhaodd rhwng Mai a Mehefin 2012, yn dangos fod yr ymgyrch wedi newid lefelau o ymwybyddiaeth y cyhoedd.

- Roedd yna gynnydd mewn ymwybyddiaeth ddigymell o beswch fel symptom o ganser yr ysgyfaint o 54% cyn yr ymgyrch i 65% ar ôl yr ymgyrch, yn ogystal â chynnydd mewn pobl yn sôn yn benodol am beswch parhaus o 12% cyn yr ymgyrch i 15% ar ôl yr ymgyrch.

Roedd arwyddion hefyd fod cleifion yn cael diagnosis yn gynharach. Dyma rai o'r darganfyddiadau arwyddocaol o ran ystadegau yn dilyn yr ymgyrch canser yr ysgyfaint cenedlaethol gyntaf yn Lloegr (2012). Gan gymharu â'r un cyfnod y llynedd, dangosodd y canlyniadau fod:

- Cynnydd o 9.1% yn y nifer o achosion o ganser yr ysgyfaint a dderbyniodd ddiagnosis yn ystod y misoedd o gwmpas yr ymgyrch;
- Cynnydd o 3.1 pwynt canran ar gyfer y gyfran o ganserau'r ysgyfaint celloedd nad yw'n fach a dderbyniodd ddiagnosis yn ystod Cam I (14.1% i 17.3%). Roedd yna hefyd ostyngiad cyfatebol o 3.5 pwynt canran yn y gyfran o bobl a dderbyniodd ddiagnosis yn ystod Cam IV (52.5% i 49.0%);
- Cynnydd o 2.3 pwynt canran (13.7% i 16.0%) ar gyfer y gyfran o gleifion sy'n derbyn echdoriadau llawfeddygol fel y driniaeth ddiffiniol gyntaf.

Ni ddarganfuwyd tystiolaeth o newid ar gyfer y cyfnod rheoli ar gyfer unrhyw un o'r mesurau uchod.

Pa effaith gallwn ei ddisgwyl ar bractisau meddygon teulu ac atgyfeiriadau pelydr-X o'r frest?

Dangosodd data ymgyrch yr ysgyfaint cyntaf yn Lloegr bod mwy o bobl gyda pheswch wedi ymweld â'u meddyg teulu:

- Wrth edrych ar gyfnod yr ymgyrch o fis Mai tan fis Mehefin 2012, o'i gymharu â mis Mai at fis Mehefin 2011, cynyddodd nifer y cleifion 50+ oed a gyflwynwyd â pheswch i fyny 63% – sy'n cyfateb i tua 3 o ymweliadau ychwanegol yr wythnos i bob practis (yn seiliedig ar arferion yn y sampl a oedd â chyfartaledd o tua 7,800 o gleifion ar eu rhestr)
- Roedd nifer y pelydrau-X y frest y cyfeirir gan Feddyg Teulu i fyny 18.6% ym mis Mai a mis Gorffennaf 2012, o'i gymharu ag Ebrill 2012.

Bydd atgyfeiriadau ar frys gan feddygon teulu yn cynyddu o ganlyniad i'r ymgyrch?

Rydym hefyd yn disgwyl y bydd cynnydd yn y cyfeiriadau ar frys gan feddygon teulu o ganlyniad i'r ymgyrch hon. Gwelodd ymgyrch ganser yr ysgyfaint cenedlaethol cyntaf Lloegr gynnydd o 32% mewn atgyfeiriadau brys ar gyfer canser yr ysgyfaint tybiedig yn ystod misoedd yr ymgyrch, o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol – sy'n cyfateb i 0.14 o gyfeiriadau ychwanegol y mis i bob practis meddyg teulu.

Faint o sganiau CT ychwanegol sydd yn debygol o fod yn angenrheidiol?

Dangosodd y data cenedlaethol o Loegr yn ystod cyfnod yr ymgyrch o fis Mai hyd at fis Gorffennaf 2012 bod cynnydd o 15.7% mewn sganiau CT i'r frest a/neu'r abdomen wedi eu cyfeirio gan Feddyg Teulu bob diwrnod gwaith o'i gymharu ag Ebrill 2012.

A fydd yna effaith ar unrhyw adrannau eraill?

Os yw'r ymgyrch yn llwyddiannus byddem yn disgwyl gweld cynnydd yn y galw am driniaeth radical llawfeddygol a thriniaeth radical sydd ddim yn llawfeddygol.

Mae ail ffrwd gwaith Menter Canser yr Ysgyfaint yn gweithio'n agos gyda WHSSC ac yn canolbwyntio ar helpu cleifion ar hyd y llwybr clinigol yn y ffordd orau bosib.

Dau beth allwch chi neud i gefnogi ymgyrch canser yr ysgyfaint:

1 **Briffiwch eich cyd-weithwyr.** Mae angen i Reolwyr Gwasanaethau, timau amlddisgyblaeth a chlinigwyr fod yn ymwybodol bod yr ymgyrch yn rhedeg a'u bod yn debygol o weld cynnydd mewn gofynion am eu gwasanaethau.

2 **Cynllunio capiaist.** Mae'n angenrheidiol eich bod yn parhau i gynllunio am gynnydd mewn cyfeiriadau ar frys gan feddygon teulu am belydr-X y frest, sganiau CT, cyfeiriadau ar frys am amheuon canser – ac mi fydd hyn yn dibynnu ar lefelau gweithredu canllawiau NICE. Mae canolfannau llawfeddygol yn cynllunio am gynnydd ac mae WHSSC yn ymwybodol o hyn.

Mae'r briff hwn yn dilyn ymlaen o ddiweddariadau rheolaidd i'r Byrddau Iechyd drwy'r Grŵp Gweithredu Canser, gweithdy ym mis Ionawr 2016 o gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd, marcwyr dyddiadur i Brif Weithredwyr Bwrdd Iechyd, Prif Swyddogion Gweithredol, Cyfarwyddwyr Cynllunio, Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Cyfarwyddwyr Meddygol, Clinigwyr Arwain ar Ganser a Cyfarwyddwyr Arwain ar Ganser; a chyfathrebu hefo'r Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (GPC Cymru, meddygon teulu), Bwrdd Y Rhaglen Genedlaethol Delweddu (NPIB, radiolegwyr), Fferylliaeth Gymunedol Cymru a Chanolfan Addysg Fferylliaeth Broffesiynol Cymru (WCPPE, fferyllfeydd).

1 Canser yr Ysgyfaint yng Nghymru. Uned Deallusrwydd a Gwyliadwriaeth Canser Cymru
2 De Angelis R et al. Lancet Oncol 2013;15:23-34.
3 Proffil Canser yr Ysgyfaint Clwstwr Meddygaeth Teulu yn Gyffredinol. Uned Deallusrwydd a Gwyliadwriaeth Canser Cymru
4 L.J.L. Forbes et al., Differences in cancer awareness and beliefs between Australia, Canada, Denmark, Norway, Sweden, and the UK (the International Cancer Benchmarking Partnership): do they contribute to differences in cancer survival? B.J.C (2013), 108, 292-300
5 L. Ironmonger et al., An evaluation of the impact of large-scale interventions to raise public awareness of a lung cancer symptom. B.J.C (2015) 112, 207-216